




Arolygiad o CEF Caerdydd



Ymwelodd yr arolygwyr â'r carchar hwn ym mis Ionawr a Chwefror 2024.



Roedden ni eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath ynteu'n waeth i garcharorion ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2019.



Gwnaethom hyn drwy:

- edrych o gwmpas y carchar
- gofyn i garcharorion a staff lenwi holiadur
- siarad â charcharorion
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau.

Beth wnaethom ni ei ganfod?



Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn teimlo'n eithaf diogel. Dywedodd gormod o garcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon. Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.



Roedd carcharorion yn cael eu trin yn dda gan staff, ond roedd y carchar yn rhy llawn. Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.



Roedd yr addysgu ar gyfer y rhan fwyaf o garcharorion yn eithaf da. Ni chafodd rhai carcharorion ddigon o help gyda'u dysgu. Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.



Cafodd carcharorion help eithaf da i baratoi i adael y carchar. Roedd gan ormod o garcharorion unman i fyw pan wnaethant adael CEF Caerdydd. Fe wnaethon ni roi 3 allan o 4 i'r carchar am hyn.

Beth ddylai'r carchar ei wneud?



Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr ddarllen ein hadroddiad arolygu. Mae'r adroddiad ar gael yn llyfrgell y carchar.

Rydyn ni eisiau i'r llywodraethwr wneud cynllun. Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut byddan nhw'n datrys y problemau yn CEF Caerdydd ac yn gwneud pethau'n well i garcharorion.


Beth ydym ni eisiau ei weld yn digwydd?




Rydyn ni eisiau i'r carchar wneud mwy i atal carcharorion rhag lladd eu hunain.




Rydyn ni eisiau i'r carchar wneud yn siŵr bod llai o gyffuriau anghyfreithlon yn mynd i mewn.




Rydyn ni eisiau i'r carchar gael gwybod beth sydd ddim yn gweithio'n dda o ran addysgu a dysgu. Rydyn ni eisiau i'r carchar eu gwella.



Rydyn ni eisiau i garcharorion allu dysgu pethau a fydd yn eu helpu pan fyddant yn gadael y carchar.



Rydyn ni eisiau i garcharorion gael mwy o help gyda dysgu os bydd angen hynny arnyn nhw.



Rydyn ni eisiau i'r carchar wneud yn siŵr bod gan garcharorion rywle i fyw pan fyddant yn gadael CEF Caerdydd.




Rydyn ni eisiau i gelloedd fod yn llai cyfyng.



Rydyn ni eisiau i garcharorion allu siarad â'u gweithiwr allweddol yn amlach.




Rydyn ni eisiau i feddyginiaeth gael ei storio a'i dosbarthu'n ddiogel.



Rydym am i garcharorion allu gweld y deintydd yn gynt.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?



Byddwn yn dod yn ôl ymhen ychydig o flynyddoedd i weld pa mor dda mae'r carchar yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU